Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 355

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Cyllido Aeron Arts**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**
Mae Aeron Arts sydd wedi ei leoli yn Aberaeron, yn darparu gweithgareddau celfyddydau creadigol a cherddoriaeth i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed. Sefydlwyd ef mewn ymateb uniongyrchol i gynnydd mewn trosedd gan bobl ifanc yn y dref, i ateb y diffyg darpariaeth celfyddyd a cherddoriaeth yn lleol, yn enwedig i bobl ifanc agored i niwed a/neu bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio gan gynnwys y rhai hynny o deuluoedd incwm isel.

Ei amcan yw gwella iechyd meddwl a lles, hybu hyder, a gostwng anghydraddoldebau ymysg pobl ifanc. Mae'n darparu gweithgareddau creadigol i gadw pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio oddi ar y strydoedd lle mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynyddu ac yn eu helpu i ail-ymgysylltu'n gadarnhaol gyda'r gymuned ehangach.

Gwnaethpwyd cais am gyllid gan y Comisiynydd er mwyn sicrhau parhad y gwasanaeth hwn hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.
Mae'r gwasanaeth yn cefnogi ethos blaenoriaeth Cynllun Heddlu a Throseddu o atal niwed a chefnogi cymunedau.

**Argymhelliad:**
Darparu cyllid o £2,660.00 o Gronfa'r Comisiynydd tuag at drosglwyddo'r prosiect.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 15/11/24**